Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE

Public Services Board

| | |
|---|---|
| **Teitl** | **Amcan Llesiant:** Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.<br>**Cam 1:** Cynyddu cydweithio ar seilwaith gwefru Cerbydau Trydan mewn lleoliadau sector cyhoeddus. |
| **Rhif yr eitem** | **5** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **28 Tachwedd 2023** |

**Ystyried a rhoi sylwadau ar y canlynol: Cylch Gorchwyl Drafft**

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin**

**Cam Gorchwyl a Gorffen 1**
**Cynyddu cydweithio ar seilwaith gwefru Cerbydau Trydan mewn lleoliadau sector cyhoeddus.**

**Cefndir**

Mae ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn un o'r Amcanion Llesiant BGC.

Crëwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin (BGC) mewn ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i arwain ar gamau Cam 1, sy'n gysylltiedig â Chynllun Llesiant 2023-2028. Mae'r cylch gorchwyl a ysgrifennwyd ar gyfer Cam 1 (2023) a thu hwnt.

**Y weledigaeth**

Y weledigaeth gyffredinol yw defnyddio tystiolaeth a mewnwelediad i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd mewn perthynas â'r Isadeiledd Gwefru Ceir Trydan yn Sir Gaerfyrddin.

**Pa waith fydd yn ei wneud?**

Mae dau brif ffocws i'r gwaith hwn:

- Yn y tymor byr, i ymchwilio, dadansoddi a pharatoi mewnwelediad ar y cyfleoedd a'r rhwystrau o ran Isadeiledd Gwefru Ceir Trydan yn y sir.
- Mapio lleoliadau presennol a chynlluniau seilwaith y dyfodol ac ystyried enghreifftiau o gytundebau lefel gwasanaeth a baratowyd mewn lleoliadau eraill.
- Paratoi cynigion clir i'w cymeradwyo gan y BGC a gweithredu dulliau chyd-gynhyrchu i wella Llesiant a dangos ein cyfraniad i'r Pum Ffordd o Weithio.

**Pwy sy'n aelodau?**

Mae'r sefydliadau BGC wedi enwebu'r cysylltiadau allweddol i alluogi'r gwaith Cam 1 hwn i symud ymlaen.

Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru hefyd ar gael i gynghori a chefnogi trwy Brosiect Dewi er mwyn gweithredu dulliau cydgynhyrchu a chyfranogi.

Bydd y Tîm Cefnogi BGC yn darparu'r gefnogaeth weinyddol i'r grŵp.

### Cenhadaeth ac egwyddorion

Cyd-greu partneriaeth arloesol sy'n ymgorffori ffyrdd newydd o weithio i:

- **Integreiddio** ein dulliau, tystiolaeth ac adnoddau ar draws yr holl 'systemau' gan weithio gyda'n gilydd i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd ar lefel leol.
- **Cynnwys a gweithio ochr yn ochr â'n cymunedau** sy'n ymgysylltu â phob grŵp mewn dulliau ystyrlon a chyd-gynhyrchu dwy ffordd o gyflawni ein Hamcanion Llesiant.
- Diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy gymryd **ymagwedd** ataliol hirdymor.
- Canolbwyntio ar ddeall **achosion sylfaenol heriau allweddol** a sut mae'r rhain yn **rhyng-gysylltiedig** i lywio ein dull o fynd i'r afael â nhw.

**Llywodraethu ac atebolrwydd**

Bydd cyfarfodydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cael eu cynnal yn fisol am gyfnod o chwe mis.

Yn ystod y cyfnod rhwng cyfarfodydd, darperir cyfathrebu a chyfarwyddiadau drwy e-bost, a'r cadeirydd, neu'r cynrychiolydd.

Bydd agendâu, papurau a cheisiadau am wybodaeth yn cael eu rhannu gyda'r grŵp cyn y cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal i ganiatáu i aelodau'r grŵp baratoi a gwneud sylwadau. Bydd ceisiadau am eitemau ychwanegol hefyd yn cael eu hanfon cyn y cyfarfodydd.

Bydd y grŵp yn cael ei gyfarwyddo gan y BGC, am y gwaith y mae'n ei wneud. Bydd diweddariadau ar weithgaredd a chynnydd Gorchwyl a Gorffen yn cael eu darparu i'r Bwrdd. Bydd unrhyw heriau neu geisiadau am gymorth yn cael eu danfon at y Bwrdd i'w datrys neu benderfynu fel y bo'n briodol.

**Alinio i fyrddau eraill**

Bydd gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn yn cefnogi ac yn cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant ac Amcanion Llesiant BGC.

| **I drafod a chytuno** | **A oes angen penderfyniad?** | **Oes** |
|---|---|---|
| • Y Cylch Gorchwyl drafft<br>• Enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr o bob sefydliad BGC<br>• Unrhyw brosiectau sy'n cyfrannu a wneir gan yr aelod-sefydliadau. | | |
| **Cynigiwyd gan** | | |
| **Llinos Evans, Tîm Cefnogi BGC** | | |